Ysgol Gymunedol Rhydypennau

Ysgol Gymunedol Rhydypennau
Bow Street
Aberystwyth
Ceredigion ~ SY24 5AD
01970 828608
prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk
http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk/

Ysgol Rhydypennau - Polisi ar gyfer / Policy for:

Ffonau Symudol, Dyfeisiadau Clyfar a rhai wedi'u Galluogi'r Rhyngrwyd

Mobile Phones, Smart Devices and Internet Enabled Devices Policy

Mabwysiadwyd y Polisi hwn ar: *This Policy was adopted on:*	Hydref 5ed 2026 *October 5th 2026*
Arwyddwyd: Ar ran y Corff Llywodraethol *Signed: On behalf of the Governing Body*	Rhodri Morgan
Dyddiad Adolygu'r Polisi hwn: *Date to revise this policy:*	Hydref 2028 *October 2028*
Pobl enwebedig i adolygu'r Polisi hwn: *Named officers to revise this policy:*	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr *Headteacher & Chair of Governors*

1. Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau diogelwch, llesiant ac addysg effeithiol pob disgybl drwy gyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol a dyfeisiau eraill sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd ar safle'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod technoleg ddigidol yn rhan o fywyd bob dydd. Fodd bynnag, gall y dyfeisiau hyn beri risgiau diogelu sylweddol a gallant amharu ar ddysgu a chanolbwyntio disgyblion. Mae'r polisi hwn wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau amgylchedd diogel, cadarnhaol a chefnogol i bawb.

2. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob disgybl sy'n mynychu'r ysgol, yn ogystal â rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr pan fyddant ar safle'r ysgol.

At ddibenion y polisi hwn, mae'r term **"dyfais sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd"** yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i:

- Ffonau symudol
- Ffonau clyfar
- Oriawr glyfar
- Tabledi
- Camerâu digidol
- Dyfeisiau gemau symudol sydd â mynediad i'r rhyngrwyd
- Tracwyr ffitrwydd â swyddogaethau cyfathrebu
- Unrhyw ddyfais sy'n gallu:
    - Cysylltu â'r rhyngrwyd
    - Anfon neu dderbyn negeseuon
    - Tynnu lluniau neu recordio fideo
    - Recordio sain
    - Cadw lluniau, fideos neu wybodaeth bersonol
    - Chwarae gemau

3. Datganiad Polisi

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â ffonau symudol, oriawr glyfar nac unrhyw ddyfais arall sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd i'r ysgol nac i'w defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r cyfyngiad hwn yn bodoli oherwydd y gall y dyfeisiau hyn:

- Gael mynediad i gynnwys ar-lein amhriodol neu anniogel.
- Anfon a derbyn negeseuon heb oruchwyliaeth.
- Tynnu lluniau, recordio fideo neu sain.
- Cadw gwybodaeth bersonol a lluniau.
- Hwyluso bwlio ar-lein neu gyfathrebu amhriodol.
- Tynnu sylw oddi wrth ddysgu a gweithgareddau ysgol.
- Cael eu colli, eu difrodi neu eu dwyn.

Prif flaenoriaeth yr ysgol yw sicrhau amgylchedd diogel lle gall disgyblion ganolbwyntio ar eu dysgu a lle mae preifatrwydd ac urddas pawb yn cael eu parchu.

4. Amgylchiadau Eithriadol

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall fod rhesymau dilys o bryd i'w gilydd i ddisgybl ddod â dyfais i'r ysgol.

Un enghraifft yw; lle mae plentyn Diabetig Math 1 yn dibynnu ar ddyfais sy'n monitro glwcos siwgr yn y gwaed yn barhaus ac sy'n gweithredu pwmp inswlin fel T-slim.

Enghraifft arall efallai yw lle mae plentyn yn teithio rhwng dau gartref ac mae angen ffôn neu ddyfais gyfathrebu arall ar ôl yr ysgol oherwydd na fyddant yn dychwelyd i'r un aelwyd.

Mewn amgylchiadau o'r fath:

- Rhaid i rieni roi gwybod i'r ysgol ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl.
- Rhaid diffodd y ddyfais cyn mynd i mewn i adeiladau'r ysgol.
- Rhaid trosglwyddo'r ddyfais yn uniongyrchol i swyddfa/derbynfa'r ysgol yn syth wrth gyrraedd.
- Bydd y ddyfais yn cael ei storio'n ddiogel gan yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol.
- Bydd y ddyfais yn cael ei dychwelyd i'r disgybl ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Mae'r Pennaeth yn cadw'r hawl i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau am eithriadau yn seiliedig ar amgylchiadau unigol ac ystyriaethau diogelu.

5. Oriawr Glyfar

Ni chaniateir gwisgo oriawr glyfar sydd â'r gallu i:

- Anfon neu dderbyn negeseuon;
- Gwneud neu dderbyn galwadau;
- Cysylltu â'r rhyngrwyd;
- Tynnu lluniau neu recordio sain;
- Rhannu lleoliad.

Caniateir gwisgo oriawr syml sydd ond yn dangos yr amser ac nad oes ganddi unrhyw swyddogaeth gyfathrebu.

6. Defnydd yn ystod y Diwrnod Ysgol

Rhaid i ddisgyblion beidio â:

1. Defnyddio ffonau symudol neu ddyfeisiau a all gysylltu â'r rhyngrwyd ar safle'r ysgol, neu ar unrhyw weithgareddau ysgol neu deithiau oddi ar y safle.
2. Gael mynediad i'r rhyngrwyd trwy ddyfeisiau personol yn ystod y diwrnod ysgol.
3. Tynnu lluniau, ffilmio neu recordio staff, disgyblion neu ymwelwyr.
4. Rhannu delweddau, fideos neu negeseuon gan ddefnyddio dyfeisiau personol.

7. Dyfeisiau a Ddaw i'r Ysgol yn Groes i'r Polisi

Os bydd disgybl yn dod â dyfais waharddedig i'r ysgol heb ganiatâd:

- Bydd yr ysgol gymryd y ddyfais a'i storio'n ddiogel.
- Gellir cysylltu â'r rhieni neu'r gofalwyr.
- Gall achosion rheolaidd arwain at gamau pellach yn unol â Pholisi Ymddygiad yr ysgol.

Nid yw'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am golled, lladrad neu ddifrod i ddyfeisiau a ddygir i'r ysgol yn groes i'r polisi hwn.

8. Ystyriaethau Diogelu

Mae'r polisi hwn yn rhan o drefniadau diogelu ehangach yr ysgol.

Mae cyfyngu ar ddyfeisiau sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd yn helpu i:

- Ddiogelu preifatrwydd plant ac oedolion.
- Lleihau'r risg o dynnu lluniau neu recordio heb ganiatâd.
- Atal mynediad at gynnwys amhriodol.
- Lleihau cyfleoedd i fwlio ar-lein.
- Creu amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol.
- Sicrhau bod cyfathrebu yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei reoli drwy weithdrefnau swyddogol yr ysgol.

9. Defnydd o Ffonau Symudol a Dyfeisiau Recordio gan Rieni, Gofalwyr ac Ymwelwyr

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr ddod â ffonau symudol a dyfeisiau personol eraill ar safle'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lles disgyblion a staff bob amser.

Ni chaiff rhieni, gofalwyr nac ymwelwyr:

- Dynnu lluniau neu recordio fideo y tu mewn i adeiladau'r ysgol oni bai bod caniatâd penodol wedi'i roi gan yr ysgol.
- Recordio cyfarfodydd, sgyrsiau neu drafodaethau â staff heb ganiatâd ymlaen llaw gan bob parti.
- Defnyddio ffonau symudol, oriawr glyfar neu ddyfeisiau eraill i recordio disgyblion, staff nac ymwelwyr.
- Rhannu unrhyw luniau neu recordiadau a gafwyd ar safle'r ysgol heb ganiatâd priodol.

Mae hyn yn berthnasol i:

- Gyfarfodydd gydag athrawon dosbarth.
- Gyfarfodydd gyda'r Pennaeth neu aelodau eraill o staff.
- Nosweithiau rhieni.
- Cyfarfodydd ADY.
- Cyfarfodydd ymddygiad, lles neu ddiogelu.

- Unrhyw gyfarfod neu apwyntiad arall ar safle'r ysgol.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bob cyfarfod gael ei gynnal mewn awyrgylch o ymddiriedaeth, parch a phroffesiynoldeb.

Os oes gan aelod o staff sail resymol i gredu bod rhiant, gofalwr neu ymwelydd yn recordio heb ganiatâd:

- Gallant atgoffa'r unigolyn o'r polisi hwn.
- Gallant ofyn am gadarnhad nad oes recordio yn digwydd.
- Gallant atal neu derfynu'r cyfarfod os na ellir datrys y pryder yn foddhaol.
- Gallant gyfeirio'r mater at y Pennaeth am gamau pellach.

Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i derfynu cyfarfod neu gyfyngu ar drefniadau mynediad i'r safle os credir y gall diogelu, preifatrwydd, cyfrinachedd neu les staff gael eu peryglu.

10. Cyfrifoldebau

Disgyblion

Bydd disgyblion yn:

- Dilyn y polisi hwn bob amser.
- Trosglwyddo unrhyw ddyfais a ganiateir i'r swyddfa yn unol â'r trefniadau.
- Hysbysu aelod o staff am unrhyw bryder ynghylch diogelwch ar-lein neu ddyfeisiau digidol.

Rhieni a Gofalwyr

Bydd rhieni a gofalwyr yn:

- Cefnogi'r polisi hwn.
- Peidio ag anfon plant i'r ysgol gyda dyfeisiau gwaharddedig.
- Hysbysu'r ysgol os oes angen ystyriaeth eithriadol.

Staff

Bydd staff yn:

- Gweithredu'r polisi yn gyson.
- Storio dyfeisiau cymeradwy yn ddiogel.
- Ymateb yn briodol i unrhyw bryderon diogelu sy'n ymwneud â dyfeisiau digidol.

11. Monitro ac Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn adlewyrchu canllawiau diogelu cyfredol a datblygiadau technolegol.